Cenn@d

MEHEFIN 1 2022 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* RHIF 66

# Y gorau a'r gwaethaf o fyd plant ac ieuenctid

Aled Davies sy'n rhannu ei sylwadau o faes Eisteddfod yr Urdd tra'n dathlu doniau ieuenctid Cymru ond ar yr un pryd yn ein hatgoffa o gymhlethdod tyfu i fyny heddiw ynghanol trais, bwlio a throseddau gynnau.

Erbyn hyn mae Eisteddfod yr Urdd yn ei hanterth, a gwelwyd rhannu doniau arbennig ym maes llên a chân, dawns a cherdd o lwyfannau'r ŵyl. Ar ôl colli dwy flynedd o steddfota a chrwydro'r maes, diolch am gael dathlu unwaith eto fwrlwm ieuenctid ein gwlad.

Dechreuwyd yr wythnos gydag oedfa arbennig yng Nghapel Mawr Dinbych, o dan arweiniad plant ac ieuenctid y sir. Cafwyd oedfa fendithiol, wrth i ni gael ein tywys ar daith gan mlynedd o gyhoeddi a rhannu neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd, ers y neges gyntaf honno gan y Parch. Gwilym Davies yn 1922. Mewn darlleniadau, gweddïau, caneuon a deialog, fe'n heriwyd i feddwl am le heddwch yn y byd, ac am y neges flynyddol hon gan ieuenctid Cymru.

Yn y pnawn braf oedd bod mewn oedfa deuluol wedi ei threfnu gan y Parchedigion Andras Iago a Rhodri Glyn, wrth iddynt groesawu teuluoedd i'r ardal. Gyda dros ugain o blant ifanc yn bresennol, eto roeddem yn gwerthfawrogi bwrlwm a chwilfrydedd y criw hwnnw.

Ar faes y brifwyl mae stondin eang o dan ofal Cytûn, Cyngor yr Ysgolion Sul a Chymorth Cristnogol, gyda chroeso i blant ac oedolion droi i mewn i brofi o letygarwch a gweithgarwch y stondin. Bu ysgolion Sul y fro yn brysur yn paratoi gweithiau celf i'w harddangos, ac yn ystod yr wythnos mae cyfle iddynt eto gyfrannu at broject celf gan Gymorth Cristnogol a fydd yn cael ei arddangos yn y Gadeirlan ym Mangor maes o law. Bob dydd am 11 o'r gloch o fewn y stondin cynhelir gwasanaeth byr, gan offrymu gweddi heddwch dros drigolion Wcráin a darllen neges Ewyllys Da eleni, sy'n sôn am heriau a phwysigrwydd newid hinsawdd.

Ond, yn anffodus, rhan o'r pictiwr yw'r uchod, a'r realiti yw y gwelir enghreifftiau o drais a chasineb ochr yn ochr â hyn o fewn ein byd. Yn ystod yr wythnos a aeth heibio gwelwyd Raheem Bailey, hogyn ifanc 11 oed o Abertyleri yn colli ei fys wrth ffoi o afael bwlis ar sail camdriniaeth hiliol – a'r plant hynny'n gyfoedion iddo yn yr ysgol. Dywed yr Athro Iwobi o Gyngor Hiliaeth Cymru fod hyn yn rhywbeth hollol gyffredin ac yn ffordd o fyw i lawer o blant o dras ethnig, a hawdd iawn fyddai i'r bachgen yma fod wedi colli ei fywyd.

Daeth y newyddion erchyll hefyd am 19 o blant yn cael eu saethu'n farw mewn ystafell ddosbarth yn Texas, a hynny gan Salvador Ramos, disgybl 18 oed yn ysgol Uwchradd Uvalde yn y dre.




Cyflwynwn ein gweddïau dros y teuluoedd hynny yn eu galar yn dilyn digwyddiad mor ofnadwy. Er bod hwn yn ddigwyddiad unigryw o ran nifer y marwolaethau mewn un digwyddiad, yn anffodus mae nifer y bobl ifanc dan 25 oed sy'n berchen ar wn yn codi'n flynyddol, ac yn 2019 fe fu iddynt eu defnyddio i ladd cyfanswm o 4,200 o blant ledled y wlad. Eto, mae America yn gyndyn iawn i dynhau rheolau perchnogaeth arfau. Hyd nes y gwneir hynny, cynyddu mae'n debyg fydd nifer y llofruddiaethau blynyddol.

Y gorau a'r gwaethaf. Daioni a drygioni ar waith yn y byd. Geiriau Paul yn ei Lythyr at y Rhufeiniaid oedd, 'Trecha di ddrygioni â daioni'. Diolch am bob ymdrech a welir yn ein byd i geisio dangos i blant beth yw gwir ddaioni, a sut i osgoi bywyd o ddrygioni. Diolch am neges flynyddol yr Urdd yn annog byw bywyd mewn heddwch, gan osgoi trais. Bydd llawer o drafod a dadlau ar bwy mae'r cyfrifoldeb i wireddu hynny. Ai'r aelwyd gartref neu'r ysgol? Mewn cyfnod a fu, ym mri'r bwrlwm eglwysig, byddai ysgolion Sul wedi bod yn sylfaen gadarn i werthoedd a moeseg, wrth gyflwyno Iesu fel esiampl i'w ddilyn.

Galwad Gwilym Davies yn 1922 oedd ar i ni weddïo ar Dduw i ddod â heddwch i'n byd. O gofio am gyflwr bregus ein byd, o hiliaeth Abertyleri i drais gynnau Texas a lladd rhyfelgar yn Wcráin, mae ei gri yn fwy ingol heddiw nag erioed. Gweddïwn ninnau gydag arddeliad, er mwyn gweld holl blant ein byd yn ffynnu ac yn cyrraedd eu llawn potensial mewn bywyd, fel dinasyddion cyflawn, llawn daioni. Gweddïwn ar i Dduw wireddu hynny.





Sylw o'r seidin
Tudalen 2

Rhyfel Wcráin – y diweddaraf gan Fedyddwyr Wcráin a'r gwledydd cyfagos
Tudalen 5

Dirgelwch Duw
Tudalen 7